
Confor
Promoting forestry and wood
Hyrwyddo coedwigaeth a choed

# Pren – Ein Dyfodol

Tyfu'r Economi ✓ Adeiladu Cartrefi ✓ Mynd i'r Afael â Newid Hinsawdd ✓ Gwella Iechyd ✓

MANIFFESTO ETHOLIAD CYMRU 2026





# Crynodeb Gweithredol

Mae Cymru'n wynebu set o heriau cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'i gilydd: yr angen i dyfu economi wledig wydn, yr argyfwng tai, yr argyfwng hinsawdd, pwysau iechyd cynyddol, a phrinder sgiliau. Mae sector coedwigaeth a phren Cymru mewn sefyllfa unigryw i helpu i fynd i'r afael â'r holl flaenoriaethau hyn – heddiw ac yn y tymor hir.

Mae pren Cymreig yn ddeunydd adnewyddadwy, isel o ran carbon sydd, ochr yn ochr â choedwigaeth fodern, yn helpu i greu swyddi o ansawdd uchel, yn adeiladu cartrefi iachach yn gynt, yn atafaelu carbon, yn gwella bioamrywiaeth, ac yn gwella lles corfforol a meddyliol pobl. Gyda'r gefnogaeth strategol gywir, gall Cymru leihau'n sylweddol ei dibyniaeth ar bren a gaiff ei fewnforio. Gall hefyd gryfhau cadwyni cyflenwi domestig a chreu economi 'coedwigaeth a phren' gylchol Gymreig sydd wedi'i gwreiddio mewn cymunedau gwledig.

Mae'r maniffesto hwn yn galw am ymagwedd ag iddi ddwy ran: cyflymu'r gwaith o greu coetiroedd newydd sy'n cynhyrchu pren ac sydd wedi'u cynllunio'n dda, a chynyddu'r defnydd o bren o goedwigoedd Cymru, yn enwedig wrth adeiladu tai. Mae buddsoddi yn y broses o reoli coedwigoedd presennol Cymru yn weithredol, yn ogystal â'u gwydnwch a'u cynhyrchiant, yn hanfodol i sicrhau cyflenwad cynaliadwy hirdymor o bren. Mae hefyd yn hanfodol i amddiffyn y buddsoddiad cyhoeddus a phreifat a wnaed eisoes, ac i sicrhau bod gan broseswyr Cymru hyder i ailfuddsoddi ac ehangu.

Mae Strategaeth Ddiwydiannol Pren Cymru yn cynnig glasbrint clir ar gyfer gweithredu. Wrth i'r Llywodraeth, diwydiant, tirfeddianwyr a chymunedau gydweithio, gall coedwigaeth a phren sicrhau twf economaidd, atebion ar gyfer yr hinsawdd, dinasyddion iachach, a dyfodol diogel i Gymru.



# Introduction

**Elaine Heckley**, Rheolwr Cenedlaethol Cymru

Mae tyfu'r economi, creu swyddi, gwella iechyd, adeiladu mwy o gartrefi, a chyrraedd targedau hinsawdd ymhlith y blaenoriaethau pwysicaf i lywodraeth nesaf Cymru, gan gefnogi'r iaith Gymraeg ar yr un pryd. Mae sector coedwigaeth a phren Cymru eisoes yn cyfrannu at yr holl nodau hyn – a chyda'r gefnogaeth strategol gywir, gall eu cyflawni'n gyflymach, ar raddfa fwy, ac yn y tymor hir.

Mae Syr David Attenborough, yn Our Planet, yn tynnu sylw at y ffaith bod defnyddio mwy o bren yn hanfodol ar gyfer cymdeithas fodern gynaliadwy. Mae hyn yn gofyn am greu coedwigoedd newydd a rheoli'r rhai sy'n bodoli eisoes yn gyfrifol er mwyn cynhyrchu cyflenwad parhaus o bren. Mae coedwigaeth sydd wedi'i chynllunio'n dda yn atafaelu carbon, yn cefnogi bioamrywiaeth, ac yn datgloi gweithgarwch economaidd ar draws meithrinfeydd coed a chwmnïau sy'n plannu, cynaeafu, prosesu, gweithgynhyrchu ac adeiladu – yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru.

Mae adeiladu cartrefi yng Nghymru o bren a dyfir yn y wlad yn cynyddu'r broses o atafaelu carbon i'r eithaf, yn lleihau allyriadau ymgorfforedig, yn gwella iechyd dan do, ac yn byrhau amseroedd adeiladu. Mae adeiladu gan ddefnyddio pren yn helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau mewn crefftau adeiladu traddodiadol, gan alluogi cyfraddau cyflenwi tai uwch.

Dengys ystadegau'r Llywodraeth a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025 fod diwydiant coedwigaeth a phren y DU yn cyfrannu bron i £3 biliwn i'r economi. Dyma stori lwyddiant y gall – ac y dylai – Cymru adeiladu arni i fynd i'r afael â'r argyfyngau tai, hinsawdd a chostau byw wrth greu gwaith â chyflog da i weithwyr medrus yng nghefn gwlad.

Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru
Y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren
Making Wood Work for Wales
Timber Industrial Strategy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Ein Gweledigaeth

Cymru lle mae coetiroedd ffyniannus, sy'n cael eu rheoli'n dda, yn cynnal cymunedau gwledig llewyrchus, yn cyflenwi pren lleol ar gyfer cartrefi a seilwaith Cymru, yn atafaelu carbon, yn adfer bioamrywiaeth, ac yn gwella lles y cyhoedd.

## 1. Economi
## Tyfu economi Cymru drwy bren

Mae gan Gymru lai o GDP y pen a chynhyrchiant na chyfartaledd y DU, er bod ganddi fusnesau arloesol sydd â photensial clir am dwf. Mae ehangu'r sector coedwigaeth a phren yn ffordd ymarferol a sicr o dyfu economi Cymru.

Y DU yw'r ail fewnforiwr net mwyaf o bren yn fyd-eang. Drwy gynyddu'r cyflenwad domestig a'r capasiti prosesu, gall Cymru leihau mewnforion, cryfhau ei gwydnwch yn erbyn marchnadoedd byd-eang anwadal, ac adeiladu economi 'coedwigaeth a phren' gylchol Cymru sy'n cadw gwerth, swyddi a sgiliau yn y wlad.

Un her hollbwysig sy'n wynebu'r sector tir gwledig yw gweithlu sy'n heneiddio, ynghyd â phrinder sgiliau, nifer gyfyngedig o ymgeiswyr newydd, a rhwystrau o ran canfyddiad. Mae coedwigaeth a phren yn rhan o'r ateb: maen nhw'n darparu swyddi gwyrdd â chyflog da, gyrfaoedd hirdymor, a manteision cymdeithasol eang – o aer a dŵr glanach i sefydlogrwydd pridd ac atafaelu carbon.

**Anogwn Lywodraeth Cymru i:**

- Gefnogi cyflawniad llawn Strategaeth Ddiwydiannol Pren Cymru, gan gynyddu'r cyflenwad o bren a'r capasiti prosesu rhanbarthol.
- Blaenoriaethu pren Cymreig mewn prosesau caffael cyhoeddus a phrosiectau seilwaith.
- Sicrhau bod y broses o greu coetiroedd newydd yn ddeniadol, yn wirfoddol, yn cael ei negodi'n lleol ac yn hyblyg, gan gynnwys systemau amaeth-goedwigaeth a defnydd cymysg sy'n gwella hyfywedd ffermydd.
- Buddsoddi yn y broses o reoli coetiroedd sy'n bodoli eisoes yn weithredol, yn ogystal â'u gwydnwch, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gynhyrchiol, yn iach, ac yn wydn yn erbyn yr hinsawdd.
- Gweithio gyda'r diwydiant i ymwneud â chymunedau'n gynnar drwy gynllunio lleol er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chonsensws.
- Buddsoddi mewn prentisiaethau, ailhyfforddi a chefnogaeth i fusnesau bach a chanolig drwy gydol y gadwyn gyflenwi.
- Hyrwyddo gyrfaoedd ym maes coedwigaeth a phren a phartneru â darparwyr hyfforddiant i greu llwybrau clir o ddilyniant.

>>



# 2. Tai
## Rhoi pren Cymru wrth galon adeiladu tai

Mae Cymru'n profi argyfwng tai, gyda thros 10,000 o bobl yn ddigartref, mwy na 170,000 ar restrau aros ar gyfer tai cymdeithasol, a gwariant sylweddol ar lety dros dro. Mae rhenti yng Nghymru yn codi'n gynt nag yn unrhyw le arall ym Mhrydain Fawr.

Mae adeiladu gan ddefnyddio pren yn rhan allweddol o'r ateb. Mae cartrefi ffrâm bren yn gyflymach i'w hadeiladu, yn hynod effeithlon o ran ynni, yn cynnwys llai o garbon, ac yn darparu amgylcheddau dan do iachach. Dangoswyd bod amlygiad i bren yn lleihau straen, yn gostwng pwysedd gwaed, ac yn gwella ansawdd aer trwy leihau cyfansoddion organig anweddol.

Mae pren a dyfir yng Nghymru, ac a brosesir yma, yn cryfhau cadwyni cyflenwi ac yn cefnogi swyddi lleol wrth ddarparu'r cartrefi sydd eu hangen ar Gymru ar frys.

**Mae angen:**
- Blaenoriaethu pren Cymreig o ffynonellau lleol ar gyfer tai cyhoeddus ac wrth gaffael ar gyfer seilwaith.
- Sicrhau bod targedau cyflenwi pren yn cyd-fynd â rhaglenni cyflenwi tai ac ôl-osod.
- Ymrwymo i adrodd yn dryloyw ar gyfraddau plannu, y cyflenwad o bren, swyddi a chanlyniadau bioamrywiaeth.
- Cynnull partneriaethau rhanbarthol i gydlynu'r ddarpariaeth a datrys rhwystrau lleol.



# 3. Newid Hinsawdd
## Creu a rheoli coetiroedd ar gyfer sero net

Mae Cymru wedi ymrwymo i gyflawni sero net erbyn 2050 ac mae'n wynebu tywydd eithafol, risgiau llifogydd a cholli bioamrywiaeth fwyfwy. Mae coedwigaeth yn ateb costeffeithiol, sy'n seiliedig ar fyd natur ac yn darparu amrywiol fanteision.

Mae plannu coetiroedd newydd, sydd wedi'u cynllunio'n dda – yn enwedig coedwigoedd cynhyrchiol â rhywogaethau cymysg – yn atafaelu carbon, yn lleihau'r risg o lifogydd, ac yn creu gwaith yng nghefn gwlad. Yr un mor bwysig yw rheoli coedwigoedd sy'n bodoli eisoes yn barhaus, gan sicrhau eu bod yn parhau i atafaelu carbon, gwrthsefyll plâu a chlefydau, a chyflenwi pren ar gyfer cynhyrchion hirhoedlog fel adeiladau.

**Argymhellwn:**
- Blannu mwy o goed bob blwyddyn i gyrraedd targedau Cymru, gan ganolbwyntio ar goetiroedd cynhyrchiol a gwydn sydd â rhywogaethau cymysg.
- Symleiddio a sefydlogi cyllid i dirfeddianwyr gyda chefnogaeth dros sawl blwyddyn.
- Rhoi safonau arfer orau ar waith i sicrhau bod yr arfer o fasnachu carbon coetiroedd yn ddilys ac yn hirdymor.
- Gwneud y mwyaf o atafaelu carbon mewn cynhyrchion pren hirhoedlog fel pren i adeiladu tai.
- Diogelu coetiroedd hynafol a sicrhau bod coed newydd a gaiff eu plannu yn ategu cynefinoedd a flaenoriaethir.
- Buddsoddi mewn prosesau fel rheoli coedwigoedd, ailstocio, ac addasu i newid hinsawdd.

# 4. Iechyd
## Coedwigaeth wrth galon llesiant

Mae coetiroedd yn chwarae rhan hanfodol wrth wella iechyd corfforol a meddyliol pobl. Mae mynediad i goedwigoedd yn lleihau straen, yn gwella hwyliau, ac yn annog gweithgarwch corfforol. Dengys ymchwil fod ymweliadau rheolaidd â choedwigoedd yn gallu hybu imiwnedd pobl – arfer a elwir yn Shinrin-yoku neu ymdrochi mewn coedwig.

Mae Forest Research yn amcangyfrif bod y manteision i iechyd meddwl a ddaw o gael mynediad i goetiroedd yn werth £13 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru.

**Anogwn y Llywodraeth i:**

- Hyrwyddo coetiroedd sy'n bodoli eisoes a rhai newydd fel rhan o strategaethau iechyd y cyhoedd ac ansawdd aer.
- Gwneud mynediad i goetiroedd yn rhan o raglenni iechyd meddwl a llesiant mewn partneriaeth â'r GIG.
- Cefnogi seilwaith coetiroedd sy'n galluogi mynediad cyhoeddus diogel a chynhwysol.



# Beth os na wnawn ni unrhyw beth?

Gallai methu â chefnogi twf y sector coedwigaeth a phren arwain at gostau uwch mewn perthynas â'r hinsawdd, dibyniaeth barhaus ar fewnforion, methu â bodloni targedau sero net, marweidd-dra economaidd mewn ardaloedd gwledig, a chanlyniadau gwaeth o ran iechyd y cyhoedd.

**Byddai gwneud dim byd yn golygu:**

- Mwy o amlygiad i farchnadoedd pren byd-eang anwadal a mwy o ddatgoedwigo dramor.
- Methu targedau atafaelu carbon a bioamrywiaeth.
- Tanfuddsoddi a chau cyfleusterau prosesu yng Nghymru, o bosibl.
- Mwy o lifogydd, dirywiad pridd a llygredd dŵr.
- Datgysylltiad pellach oddi wrth fyd natur a cholli mannau hamdden.

Mae her newid defnydd tir yn real – ond mae manteision net coedwigaeth yn sylweddol ac yn cyd-fynd yn gryf ag anghenion hirdymor Cymru.

# Casgliad

Nid ateb tymor byr yw pren – mae'n ased cenedlaethol hirdymor. Drwy gefnogi'r gwaith o greu coetiroedd newydd a defnyddio mwy o bren Cymreig, gall Cymru sicrhau cyflenwad cynaliadwy o bren, cryfhau economïau gwledig, darparu cartrefi iachach, cyflawni ymrwymiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, a gwella lles y cyhoedd.

Mae'r cyfle yn un clir. Gydag arweinyddiaeth, partneriaeth a buddsoddiad strategol, gall coedwigaeth helpu i lunio dyfodol gwydn, llewyrchus ac isel o ran carbon i Gymru.

# Yr Addewid

Mae Confor yn addo bod yn bartner dibynadwy i'r Llywodraeth, pleidiau gwleidyddol, ffermwyr a chymunedau – gan ddarparu atebion ymarferol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer swyddi gwledig â chyflog da, adfer natur, cartrefi isel o ran carbon, a dyfodol economaidd diogel i Gymru.

- ✔ **Rydyn ni'n hirdymor.**
- ✔ **Rydyn ni'n gynaliadwy.**
- ✔ **Rydyn ni'n rhan o'r ateb.**

# MANTEISION COEDWIGAETH FODERN

## AMRYWIOL FANTEISION COEDWIGAETH FODERN

### HYBU'R ECONOMI
Mae'r diwydiant coedwigaeth a phren y DU yn cyfrannu bron i £3 biliwn i'r economi

### ATAFAELU CARBON
Mae coed sy'n tyfu yn amsugno carbon ac yn ei gloi mewn cynhyrchion pren

### CREU SWYDDI GWLEDIG
Mae coedwigaeth yn cynnal 11,000 o swyddi yn yr Cymru, yn aml mewn ardaloedd gwledig lle nad oes llawer o gyfleoedd gwaith eraill

### ADEILADU CARTREFI NEWYDD
Mae adeiladu cartrefi cynaliadwy newydd gan ddefnyddio pren a dyfir yn yr Cymreig yn dda i'n hamgylchedd a'n heconomi

### MAE'N LLEIHAU PERYGL LLIFOGYDD
Gall plannu coed ar yr ucheldir leihau'r risgiau o lifogydd mewn cymunedau i lawr yr afon

### LLEFYDD I GRWYDRO
Mae coedwigoedd yn darparu llefydd ar gyfer ymarfer corff a hamdden, gan fod o fudd i iechyd corfforol a meddyliol pobl

### CARTREFI I FYWYD GWYLLT
Mae coedwigoedd yn gartref i fywyd gwyllt, fel y wiwer goch, y gwalch Marthina, a llawer o rywogaethau prin eraill

Confor
Promoting forestry and wood
Hyrwyddo coedwigaeth a choed

Confor yw llais y diwydiant coedwigaeth a phren ac mae'n cynrychioli 1,200 o fusnesau o bob rhan o'r gadwyn gyflenwi – o feithrinfeydd sy'n tyfu coed ifanc a chwmnïau sy'n dylunio, plannu, rheoli a chynaeafu coedwigoedd, i broseswyr pren sy'n creu cynhyrchion hanfodol o bren, gan gynnwys pren llifio a phaneli.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â:
**Elaine Heckley**
elaine.heckley@confor.org.uk
**Stuart Goodall**
stuartg@confor.org.uk
0131 240 1410